

Minutes of the **Planning and Amenities Committee** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, on **Monday 3<sup>rd</sup> September 2018** at 7.30 p.m.

**PRESENT:** - His Worship The Mayor, Councillor J Wynn Jones  
The Deputy Mayor, Councillor J W Williams  
Councillors G O Roberts (Chairman)  
Mrs L Day Ifan James Enid Parry  
Dylan Fernley Keith Jones Gareth Roberts  
D Hainge Colin King E Walker Jones  
Medwyn Hughes J M Martin Owen Hurcum

Officer: - Mr Ian Jones, Town Clerk

#### **85/18 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors N Pickavance, Salik Rahman, Huw Wyn Jones, Mair Rowlands and Luke Tugwell.

#### **86/18 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

None declared.

#### **87/18 PRESENTATION BY THE SAUDI ARABIAN GROUP**

Members received a presentation by the Bangor Saudi Group which outlined their history and links to the Bangor area. The presentation focused on the image of Saudi Arabia and its improving links with the UK.

The Group had agreed to meet with the City Council in an attempt to forge a good working relationship and presented four initiatives to engage with the Community of Bangor both financially and partnership.

Members thanked the Group for their presentation and asked that further engagement be made via a smaller group through the Town Clerk.

#### **88/17 URGENT BUSINESS**

The Town Clerk gave details of a letter received from the Rotary Club of Bangor regarding the "Purple 4 Polio" campaign which included the lighting in purple of the Menai Straits from Caernarfon to Beaumaris.

The City Council was requested to do what it was able to with regards the lighting up the Pier in purple. The Town Clerk as asked to ascertain what could be done in the current circumstances and report back on the likely cost of the floodlighting.

#### **89/18 FOOTBALL PITCH AND CHANGING ROOMS, BEACH ROAD - Update**

Members were reminded of the earlier correspondence with Gwynedd Council regarding the future maintenance and responsibilities with regard to the football pitch and changing rooms at Beach Road Bangor. The responses to the City Council's queries were considered and the whole future of maintenance of grassed and play areas in the city were debated.

**RESOLVED:** that the Town Clerk approach Gwynedd Council with a view to setting up a small group to discuss this particular playing field and wider issues within the City.

#### **90/18 MENAI STRAIT FISHERY ORDER MANAGEMENT ASSOCIATION**

An approach had been made by the Menai Straits Fishery Order Management Association to enquire whether the City Council would like to appoint a representative to sit on the Board of the Association.

**RESOLVED:** that Councillor Gareth Roberts be appointed as the representative on this body.

#### **91/18 FFORDD GWYNEDD AND THE PLANNING SERVICE EXERCISE**

Members received and noted a consultation letter from Gwynedd Council's Planning Department requesting feedback on the work of the Service.

**RESOLVED:** that comments be make either direct or through the Town Clerk by the deadline date.

**92/18 PLANNING APPLICATIONS**

**RESOLVED:** that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below: -

**C18/0679/11/LL** - Extensions and alterations 40, Ffordd y Coleg. **No objection.**

**C18/0743/11/LL** Two storey extension on gable end of Dwelling. 6 Penrhos Avenue, Bangor. **No objection.**

**C18/0709/11/AM** Erection of a new dwelling. 19 Ffordd Garth Uchaf, Bangor. **Objection on the grounds of insufficient information and lack of detailed plans.**

**93/18 HIGHWAY MATTERS**

**RAF 100 Event** – Road closures were noted.

**94/18 LICENSING MATTERS**

None.

---

The Meeting finished at 8.15 p.m.

Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd Penrhyn, Ffordd Gwynedd, **nos Lun, 4<sup>ydd</sup> o Fedi, 2017** am 7.30 y.h.

**PRESENNOL :-**

Ei Deilyngdod y Maer, Cynghorydd J Wynn Jones			
Y Dirprwy Faer, Cynghorydd J W Williams			
Cynghorwyr G O Roberts (Cadeirydd)			
Mrs L Day	Ifan James	Enid Parry	
Dylan Fernley	Keith Jones	Gareth Roberts	
D Hainge	Colin King	E Walker Jones	
Medwyn Hughes	J M Martin	Owen Hurcum	

Swyddog: - Mr Ian Jones, Clerc y Dref

**85/18 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr N Pickavance, Salik Rahman, Huw Wyn Jones, Mair Rowlands a Luke Tugwell.

**86/18 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim.

**87/18 CYFLWYNIAD GAN GRŴP SAUDI ARABIA**

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan Grŵp Saudi Bangor a oedd yn amlinellu eu hanes a'u cysylltiad ag ardal Bangor. Roedd y cyflwyniad yn edrych ar ddelwedd Saudi Arabia a gwella cysylltiadau â'r DU.

Roedd y Grŵp wedi cytuno i gwrdd â Chyngor y Ddinas mewn ymgais i ffurfio perthynas weithio dda a chyflwynwyd pedwar cynllun i ymgysylltu â Dinas Bangor, yn nhermau ariannol a phartneriaeth.

Diolchodd yr Aelodau i'r Grŵp am eu cyflwyniad a gofynnwyd am gael gwneud cyswllt pellach drwy grŵp bychan i'w drefnu gan Glerc y Dref.

**88/18 MATERION BRYD**

Rhoddodd Clerc y Dref fanylion llythyr a dderbyniwyd gan Glwb Rotari Bangor ynghylch yr ymgyrch "Purple 4 Polio". Byddai hyn yn cynnwys goleuo Afon Menai yn borffor o Gaernarfon i Fiwmares.

Gofynnwyd i Gyngor y Ddinas wneud beth a allai i oleuo'r Pier yn borffor. Gofynnwyd i Glerc y Dref gadarnhau beth oedd yn bosibl o dan yr amgylchiadau presennol ac adrodd yn ôl ar gost llifoleuadau.

**89/18 CAE PÊL-DROED AC YSTAFELLOEDD NEWID, Ffordd y Traeth - Diweddariad**

Atgoffwyd yr Aelodau am yr ohebiaeth flaenorol gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â chynnal a chadw a chyfrifoldebau yn y dyfodol dros y cae pêl-droed a'r ystafelloedd newid yn Ffordd y Traeth, Bangor. Ystyriwyd yr ymatebion i gwestiynau Cyngor y Ddinas a chafwyd trafodaeth am gynnal a chadw glaswellt a llefydd chwarae'r ddinas yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:** y byddai Clerc y Dref yn mynd at Gyngor Gwynedd gyda golwg ar sefydlu grŵp bychan i drafod y cae chwarae arbennig hwn a'r materion ehangach yn y Ddinas.

**90/18 CYMDEITHAS RHEOLI GORCHYMYN PYSGODFA AFON MENAI**

Roedd Cymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfa Afon Menai wedi holi a fyddai Cyngor y Ddinas yn hoffi penodi cynrychiolydd i eistedd ar Fwrdd y Gymdeithas.

**PENDERFYNWYD:** penodi'r Cynghorydd Gareth Roberts yn gynrychiolydd ar y corff hwn.

**91/18 YMARFERIAD FFORDD GWYNEDD a'r GWASANAETH CYNLLUNIO**

Derbyniodd a nododd yr Aelodau lythyr gan Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd yn gofyn am adborth ar waith y Gwasanaeth.

**PENDERFYNWYD:** anfon sylwadau'n uniongyrchol neu drwy Glerc y Dref erbyn y dyddiad cau.

**TUDALEN 20**

**92/18 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD :** Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod :-

**C18/0679/11/LL** - Estyniadau a newidiadau 40, Ffordd y Coleg. **Dim gwrthwynebiad**

**C18/0743/11/LL** Estyniad deulawr ar dalcen yr eiddo. 6 Penrhos Avenue, Bangor. **Dim gwrthwynebiad**

**C18/0709/11/AM** Codi annedd newydd. 19 Ffordd Garth Uchaf, Bangor. **Gwrthwynebiad ar y sail nad oedd digon o wybodaeth a diffyg cynlluniau manwl.**

**93/18 MATERION PRIFFYRDD**

**Canmlwyddiant yr Awyrlu Brenhinol** - Nodwyd y ffyrdd fydd ar gau.

**94/18 MATERION TRWYDDEDU**

Dim.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.15 y.h.